Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Yr Ardd-lin
Yr Ardd-lin
Llanymynech
Powys
SY22 6RT

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Yr Ardd-lin

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Yr Ardd-lin ym mhentref Yr Ardd-lin, i'r gogledd ddwyrain o'r Trallwng yn awdurdod lleol Powys. Daw disgyblion o bentref Yr Ardd-lin a phentrefi eraill cyfagos. Mae 87 o ddisgyblion rhwng pedair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn tri dosbarth oedran cymysg ac un dosbarth un oedran.

Mae tua 2% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 12% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac mae bron pob un ohonynt yn siarad Saesneg gartref.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2011. Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2009.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Yr Ardd-lin yn amgylchedd gofalgar lle mae pob un o’r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ddiogel a hapus. Mae rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr yn cyfrannu at yr ymdeimlad cryf o gymuned sy’n bodoli yn yr ysgol ac o’i chwmpas. Mae’r ysgol yn gofalu’n dda iawn am ei disgyblion.

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bawb. Defnyddiant wybodaeth o brosesau hunanarfarnu yn effeithiol i nodi blaenoriaethau synhwyrol i sicrhau gwelliant parhaus. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu i fod yn unigolion hyderus a huawdl sy’n cyflawni’n dda.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran ac mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd da. Mae ansawdd cyffredinol yr addysgu yn dda a’r ddarpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg, sy’n gryfder yn yr ysgol.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd o ansawdd uchel er mwyn i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu a gweithio’n annibynnol

A2 Sicrhau bod yr holl dasgau cynlluniedig yn canolbwyntio’n briodol ar ddatblygu medrau, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau ar y lefel sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn mynegi eu syniadau'n glir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio geirfa ddiddorol ac aeddfed wrth gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando'n dda yn y cyfnod sylfaen. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynegi eu barn yn effeithiol, er enghraifft wrth drafod manteision ac anfanteision cadw anifeiliaid mewn sw.

O'r dosbarth derbyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu darllen. Trwy gydol y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu gwybodaeth ffonig yn annibynnol i ddarllen geiriau anghyfarwydd ac, erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar goedd a gyda mynegiant da. Maent yn trafod hoff awduron a chymeriadau stori yn aeddfed ac yn defnyddio ystod eang ac amrywiol o eirfa i gyfiawnhau eu barn. Mae rhai disgyblion yn darllen i safon uchel iawn ac yn darllen testunau cymhleth yn fedrus.

Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus. Maent yn ffurfio llythrennau'n gywir ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynhyrchu llawysgrifen ddestlus a darllenadwy erbyn diwedd Blwyddyn 2. Mae sillafu'n gywir ac yn briodol i oedran ar y cyfan ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus at ystod eang o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth o arddulliau. Er enghraifft, wrth astudio Harry Potter, mae disgyblion yn llunio adroddiadau ysgol, prosbectws ysgol a phortreadau cymeriad manwl.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni'n dda mewn mathemateg ac mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o brosesau mathemategol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae bron pob un ohonynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn bwrpasol. Er enghraifft, wrth ddylunio byngalo ar gyfer pâr sydd wedi ymddeol, maent yn ymateb yn ddeallus i set gymhleth o ofynion ac yn gweithio i raddfa yn gywir. Maent yn arfarnu eu gwaith yn ofalus ac yn rhoi esboniadau manwl am eu dewisiadau dylunio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn deall gwerth lle ac yn defnyddio strategaethau ysgrifenedig addas ar gyfer datrys problemau adio a thynnu gan ddefnyddio rhifau dau ddigid. Maent yn adnabod haneri a chwarteri, er enghraifft wrth dorri ffrwythau ar gyfer byrbryd. Maent yn adnabod gwerth darnau arian hyd at £2 ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth o bedair rheol rhif i adio a thynnu gwerthoedd arian. Maent yn mesur yn gywir mewn centimetrau ac yn gwneud amcangyfrifon addas o fewn metr. Mae disgyblion mwy abl yn talgrynnu rhifau tri digid i'r 100 agosaf ac yn datblygu amrywiaeth o strategaethau ysgrifenedig i adio a thynnu rhifau tri digid.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg. Dangosant frwdfrydedd tuag at yr iaith. Mae'r disgyblion ieuengaf yn canu caneuon a rhigymau Cymraeg yn frwdfrydig ac yn dysgu geiriau ac ymadroddion syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau

sgyrsiau gyda'i gilydd ac oedolion. Maent yn dechrau defnyddio cysyllteiriau a negyddion syml i ymestyn eu hatebion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal eu cynnydd, ac erbyn diwedd Blwyddyn 6, dangosant falchder a phleser diffuant wrth siarad Cymraeg. Mae disgyblion mwy abl yn cymryd rhan mewn sgyrsiau estynedig ac yn ateb ystod eang o gwestiynau yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n estynedig ac yn dechrau ymestyn eu brawddegau'n fedrus. Maent yn cymhwyso eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus ar draws pynciau eraill. Er enghraifft, maent yn darllen ac ateb cwestiynau am Harri'r VIII mewn hanes. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu heb gymorth fframiau ysgrifennu ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth o batrymau brawddeg yn effeithiol i ennyn diddordeb y darllenydd.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau da mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mewngofnodi ar blatfform dysgu rhithwir yn hyderus ac yn defnyddio ystod o feddalwedd addas. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu lluniau gan ddefnyddio rhaglen beintio, er enghraifft yn eu gwaith testun ar anifeiliaid y jyngl. Defnyddiant raglen prosesu geiriau i ysgrifennu erthyglau gan ddadlau o blaid ac yn erbyn cadw anifeiliaid mewn sw, a rheoli tegan symudol yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu ac anfon negeseuon e-bost at ffrindiau llythyru o ysgol arall. Maent yn deall budd creu graffiau a siartiau cylch cywir i gofnodi faint o sbwriel a ganfuwyd o gwmpas safle'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o wefannau diogel i ymchwilio i wybodaeth a chyflwyno eu canfyddiadau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn poblogi a chwilota mewn taenlenni syml yn llwyddiannus. Er enghraifft, fel rhan o brosiect gwyddoniaeth a gwblhawyd ar y cyd ag ysgol leol, maent yn dadansoddi taenlenni'n gywir i bennu p'un a yw pobl dalach yn neidio ymhellach.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn cydnabod bod yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd â'u dysgu. Maent yn teimlo eu bod yn derbyn gofal ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff a'u cyfoedion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus. Maent yn cynorthwyo ei gilydd mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Mae safon uchel yr ymddygiad ar draws yr ysgol yn sicrhau amgylchedd dysgu tawel a phwrpasol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais iawn, yn sylwgar ac yn ymddwyn yn dda. Maent yn trin oedolion â pharch ac yn dangos lefel uchel o falchder yn eu hysgol. Datblygant agweddau ac ymddygiadau sy'n cyfrannu'n effeithiol at ysbryd cymunedol yr ysgol. Er enghraifft, o Flwyddyn 2 ymlaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd eu tro i weini bwyd i'w cyfoedion amser cinio.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgymryd yn dda â'u gwaith ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnod priodol. Maent yn cwblhau eu tasgau i safon uchel ac yn dangos balchder mawr yn eu gwaith. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n dda yn unigol, mewn parau ac mewn grwpiau bach i gyflawni eu nodau dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn trefnu eu hunain mewn timau wrth chwilio am ddeinosoriaid yn ardal y coetir. Mae bron pob un o'r disgyblion yn parchu safbwyntiau pobl eraill ac yn mwynhau rhannu eu meddyliau a'u syniadau gydag ymwelwyr.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau cyfrifoldeb ar draws yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol, dewiniaid digidol, y cyngor eco a swyddogion iau diogelwch ar y ffordd yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Caiff eu gwaith effaith gadarnhaol ar agweddau ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi bod yn allweddol wrth fynd i'r afael ag ymddygiad, a'i wella, amser cinio, ac wrth newid y bwydlenni cinio.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol ac yn hael i ddigwyddiadau codi arian. Maent yn trefnu gwerthiannau cynnyrch gardd i godi arian ar gyfer elusennau plant. Trwy'r gweithgareddau hyn, mae disgyblion yn datblygu medrau entrepreneuraidd da.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn wynebu anawsterau yn eu gwaith. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn dibynnu'n ormodol ar gymorth gan oedolion ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i weithio'n annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall bod angen bwyta ac yfed yn iach. Mae llawer o ddisgyblion yn frwdfrydig am eu gwersi addysg gorfforol ac maent yn gwerthfawrogi gwaith y llysgenhadon chwaraeon i drefnu gweithgareddau chwaraeon ar gyfer amser egwyl. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o glybiau chwaraeon ar ôl yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae bron pob un o'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol ac yn rhannu strategaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol. Maent yn trin disgyblion â pharch ac yn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol a phwyllog.

Mae pob un o'r athrawon a'r staff cymorth yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf gyda disgyblion ac mae eu rhyngweithio'n adlewyrchu'r gwerth uchel a roddant ar feithrin lles disgyblion. Mae'r dull hwn yn datblygu hyder bron pob un o'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn eu cynllunio. Maent yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn ymweld â fferm gyfagos i wylio'r gwartheg yn cael eu godro ac yn mynd i'r warchodfa natur gyfagos i archwilio cynefinoedd anifeiliaid. Fodd bynnag, yn y cyfnod sylfaen, nid yw cynllunio ar gyfer gweithgareddau pan fydd disgyblion yn gwneud eu dewisiadau eu hunain bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau disgyblion.

Mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu clir yn gyson dda ac yn myfyrio ar y rhain ar ddiwedd y rhan fwyaf o wersi. Defnyddiant amser myfyrio a thechnegau holi'n llwyddiannus i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion wirio ac atgyfnerthu'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Mae staff yn rhoi adborth rheolaidd a defnyddiol ac yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad disgyblion eraill. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wybod beth maent wedi'i wneud yn dda a deall beth mae angen iddynt ei wneud i wella ymhellach. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu cyd-destun gwledig yr ysgol yn dda.  Er enghraifft, yn ystod y testun 'anifeiliaid a milfeddygon' yn ddiweddar, daeth ffermwr lleol ag ŵyn i'r ardal yn yr awyr agored i blant y dosbarth Derbyn eu gweld.  Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf hefyd ac mae'n darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am Gymru a'u treftadaeth Gymreig.

Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn systematig.  Mae cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gynhwysfawr a phwrpasol.  Er enghraifft, mewn gwers Gymraeg, mae disgyblion yn cymhwyso eu dealltwriaeth o bedair rheol rhif i gynllunio a phennu cost bwydlen yn y 'Caffi Cymraeg'.

Mae athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer datblygu medrau Cymraeg mewn gweithgareddau ffurfiol a sefyllfaoedd anffurfiol.  Er enghraifft, mae'r 'Dŵds Cymraeg' yn mynd ati i hyrwyddo ac annog disgyblion i chwarae gemau Cymraeg, fel 'Beth yw'r amser Mr Blaidd?' y mae'r disgyblion yn eu mwynhau, ac maent yn effeithiol o ran datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh yn ystod gwersi penodol yn effeithiol ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd da.  Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm yn gyfyngedig.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus.  Mae staff yn darparu cymorth cryf i ddisgyblion ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd sy'n eu hannog i ymfalchïo yn eu gwaith a chyfrannu at y gweithgareddau amrywiol sy'n digwydd.

Mae'r diwylliant cyfoethog o barch, cydraddoldeb a thegwch yn hyrwyddo nodau'r ysgol yn llwyddiannus.  Trwy brofiadau ehangach y cwricwlwm, fel cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau elusennol, mae'r ysgol yn adeiladu ar yr ethos hwn ymhellach.  O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos parch ac ystyriaeth am bobl eraill.

Mae staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda iawn ac mae'r perthnasoedd rhwng yr ysgol a'r gymuned yn gryf ac yn seiliedig ar barch ar y ddwy ochr.  Mae staff yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol gyda rhieni yn rheolaidd trwy'r wefan a'r cylchlythyrau.  Mae hyn yn galluogi rhieni i fod yn rhan o ddysgu eu plant a'i gefnogi.

Mae gan ffrindiau a rhieni rôl frwd a gweithgar ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.  Maent yn cefnogi'r ysgol trwy ystod eang o ddigwyddiadau poblogaidd i godi arian.  Mae ystafell ddosbarth yn yr awyr agored a roddwyd i'r ysgol yn ddiweddar yn nodwedd boblogaidd iawn yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion.  Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynorthwyo unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion.  Mae hyn yn helpu sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Ceir darpariaeth gref ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio i gynllunio'n effeithiol i gefnogi anghenion unigol y disgyblion hyn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau amrywiol, fel y seicolegydd addysg ac athrawon synhwyraidd a lleferydd ac iaith arbenigol, i ddarparu cymorth arbenigol a phwrpasol ar gyfer disgyblion a nodwyd.

Mae athrawon yn darparu gwersi a gweithgareddau gwerthfawr ar gyfer disgyblion i hyrwyddo eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol briodol sy'n addysgu disgyblion am werthoedd craidd goddefgarwch, parch a phwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae addoli ar y cyd yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion fyfyrio ynglŷn â pham maent yn gwneud rhai dewisiadau mewn bywyd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sydd wedi'i seilio ar herio pob disgybl i gyrraedd safonau uchel a sicrhau lefelau lles uchel. Mae'r weledigaeth hon yn ategu gwaith a bywyd yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel ac mae athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr yn deall y llinellau atebolrwydd yn glir. Mae'n herio staff yn briodol i sicrhau gwelliant parhaus yr ysgol. Mae pob un o'r athrawon yn deall eu rolau ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn ddiwyd ac yn gymwys. Mae gwaith tîm yn gryfder yn yr ysgol. Mae pob aelod o staff yn cydweithio'n dda i gynllunio a gweithredu strategaethau ar gyfer gwella.

Mae'r broses hunanarfarnu yn ganolog i ddatblygiad yr ysgol ac mae'n nodi meysydd i'w gwella a chryfderau yn gywir. Mae ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol yn llywio hunanarfarnu, gan gynnwys dadansoddi data, monitro darpariaeth, a gwrando ar ddysgwyr a safbwyntiau'r gymuned ehangach. Mae gan y llywodraethwyr rôl weithgar mewn hunanarfarnu ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn gadarn ac mae'r meini prawf llwyddiant yn heriol a mesuradwy. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd tuag at dargedau yn rheolaidd ac mae'r trylwyredd hwn wedi arwain at welliannau sylweddol mewn llawer o feysydd. Enghraifft nodedig o hyn yw'r gwelliant ym medrau Cymraeg disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol ac yn adnabod yr ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu'n dda. Mae'r bartneriaeth rhwng y llywodraethwyr ac arweinwyr yr ysgol yn eithriadol o dda ac yn seiliedig ar barch ar y ddwy ochr a nod ar y cyd ar gyfer sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer pob disgybl. Mae'r rhan fwyaf o'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r pennaeth ac arweinwyr y cwricwlwm i fonitro effaith cynlluniau gwella ar ddeilliannau a lles disgyblion. Mae'r corff llywodraethol yn ffrind beirniadol effeithiol i'r ysgol.

Mae'r system rheoli perfformiad yn drylwyr ac mae amcanion yn cysylltu'n agos ag anghenion datblygiad proffesiynol staff a blaenoriaethau'r ysgol yn ogystal. Mae

bron pob un o'r staff yn elwa ar ystod dda o gyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu ac ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol i rannu adnoddau ac arfer dda. Mae'r partneriaethau hyn o fudd i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn caffael dealltwriaeth ddyfnach o gysyniadau gwyddonol sydd o fudd i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i wella eu harfer eu hunain a rhannu arbenigedd. Mae arweinwyr yn mynd ati i annog staff i ennill rhagor o gymwysterau a gwneud cynnydd proffesiynol. Mae staff yn hyfforddi a mentora eu cymheiriaid trwy gyrsiau proffesiynol yn llwyddiannus ac yn rhannu eu profiadau â'i gilydd yn bwrpasol. Er enghraifft, mae staff cymorth yn ennill cymwysterau uwch ac yn mentora cydweithwyr eraill yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn monitro gwariant yn ofalus i sicrhau cost effeithiolrwydd cynlluniau gwariant. Gwnânt ddefnydd da o'r grant datblygu disgyblion i gynorthwyo disgyblion cymwys ac olrhain a monitro eu cynnydd yn ofalus. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da ym mhob agwedd ar eu dysgu a'u lles.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2018